**CYNGOR BRO MORGANNWG**

**GORCHYMYN (A4050 PORT ROAD (RHAN) CYFYNGIAD CYFLYMDER 40MYA A 50MYA, DIWYGIO A DIRYMU) 2022**

1. Ar 15 Tachwedd 2022, gwnaeth Cyngor Bro Morgannwg, wrth arfer ei bwerau dan adrannau 1, 2 a 84 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a'r holl bwerau galluogi eraill, Orchymyn a fydd yn gorfodi'r hyn a ddisgrifir yn yr Atodlenni isod.
2. Daw'r Gorchymyn i rym ar 21 Tachwedd 2022 neu ar y dyddiad y bydd yr arwyddion a'r marciau ffordd yn eu lle, p'un bynnag yw'r hwyraf a chyfeirir ato fel Gorchymyn Cyngor Bro Morgannwg Port Road (Rhan) Cyfyngiad Cyflymder 40MYA a 50MYA, Diwygio a Dirymu) 2022.
3. Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r cynlluniau sy'n dangos yr ardal yr effeithir arni ar wefan y Cyngor yn [www.bromorgannwg.gov.uk](http://www.bromorgannwg.gov.uk)
4. Os dymunwch herio dilysrwydd y Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaethau ynddo ar y sail nad yw'n unol â'r pwerau a ddyfarnwyd gan y Ddeddf uchod neu ar y sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf, neu unrhyw offeryn a wnaed dan y Ddeddf mewn perthynas â'r Gorchymyn, gallwch, o fewn chwe wythnos i 21 Tachwedd 2022, wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwn.

**ATODLEN 1**

**Cyfyngiad Cyflymder 40mya Newydd**
**Llwybr yr A4050, Port Road (rhan)**

O'r gyffordd â chylchfan Cyfnewidfa Croes Cwrlwys i gyfeiriad y de yn gyffredinol i gylchfan St Andrews Road am bellter o tua 2800 metr.

**ATODLEN 2**

**Cyfuno/Diwygiadau i Orchmynion Rheoli Traffig presennol**
**Llwybr yr A4050, Port Road (rhan)**
**Cyfyngiad Cyflymder 50mya**

O'r gyffordd â chylchfan St Andrews Road i gyfeiriad y de yn gyffredinol i bwynt tua 270 metr i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd â Ffordd Gyswllt Dociau'r Barri yr A4231 am bellter o oddeutu 1020 metr.

**Cyfyngiad Cyflymder 40mya**

O bwynt 270 metr i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd â'r A4231 Heol Gyswllt Dociau'r Barri, i gyfeiriad y de-orllewin yn gyffredinol i Gylchfan Waycock Cross am bellter o oddeutu 4150

**ATODLEN 3**

**Diddymiadau**

**Dirymu Atodlen 1 paragraff (ii) ac Atodlen 2 i gyfyngiad y Gorchymyn Rheoli Traffig canlynol (a restrir fel Gorchymyn 451):**

**GORCHYMYN CYNGOR SIR DE MORGANNWG (A48/A4050) (CYFYNGIAD CYFLYMDER) 1991. (451)**

**Dirymu'r Gorchmynion Rheoli Traffig canlynol (a restrir fel Gorchmynion 71, 81, 93, a 908) yn eu cyfanrwydd:**

**GORCHYMYN CYNGOR SIR DE MORGANNWG (PORT ROAD, GWENFÔ) (CYFYNGIAD CYFLYMDER 40MYA) 1981. (71)**

**GORCHYMYN CYNGOR SIR DE MORGANNWG (PORT ROAD, Y BARRI) (CYFYNGIAD CYFLYMDER 40MYA) A (PRT ROAD GWENFÔ) 1985. (81)**

**GORCHYMYN CYNGOR SIR DE MORGANNWG (PORT ROAD, Y BARRI) (CYFYNGIAD CYFLYMDER 40MYA) 1979. (93)**

**GORCHYMYN CYNGOR BRO MORGANNWG (A4050 PROT ROAD Y BARRI DIWYGIO'R CYFYNGIADAU CYFLYMDER 40MYA A 50MYA PRESENNOL) 2011 (908)**

Dyddiad: 17 Tachwedd 2022.
Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai
Cyngor Bro Morgannwg,
Yr Alpau, Gwenfô CF5 6AA